

Gwerthuso Parhaus

Dyma lyfryn i'ch cefnogi wrth
gynnal sggyrsiau Gwerthuso Parhaus
un i un neu gyda grŵp.

Cynnwys



Cyffredinol

TUDALEN 3

Cefndir

TUDALEN 4

Stwythur Sgwrs

TUDALEN 5

Pethau i'w Hystyried

Cwestiynau

TUDALEN 7

Cwestiynau Cychwynnol

TUDALEN 8 & 9

Cwestiynau Lles

TUDALEN 10 & 11

Cwestiynau Gwaith

TUDALEN 12

Cwestiynau Datblygiad

TUDALEN 13

Cwestiynau Cloi

Cefnogaeth

TUDALEN 15 & 16

**Gwybodaeth am sut i ymateb i
bryderon Lles**

TUDALEN 17

Cefnogaeth Iaith Gymraeg

TUDALEN 18

**Cefnogaeth ar sut i gael
gwybodaeth am hyfforddiant**





Mae'r sgysiau cyswllt yma yn **bwysig** i bawb o'r staff.

Mae amgylchiadau y gweithle yn mynd i gael dylanwad ar faint o gyswllt ydych yn ei gael gyda staff. Dylid anelu am gael sgwrs un i un (wyneb yn wyneb neu rhithiol) o leiaf bob 2 i 3 mis. Yn ddelfrydol, byddai sgwrs/cyfarfod yn digwydd unwaith y mis. Mae rhai yn cael y sgysiau misol yma yn barod gan ei fod yn statudol i'r swydd - mae cyfle yma i adnabod hyfforddiant neu gefnogaeth yn ehangach na'r swydd.


Canllaw yw'r cwestiynau yma - byddwch yn addasu, newid a datblygu cyfres o gwestiynau sydd yn gweithio i chi. Mae'n bosibl defnyddio'r ddogfen hon i greu strwythur i'ch sgysiau, neu ei ddefnyddio yn syml i adnabod cwestiynau newydd neu wahanol.

Dylid **cofnodi** sgwrs ar Modiwl Datblygu Staff (MoDS) o leiaf unwaith pob chwe mis. Bydd e-bost atgoffa yn eich cyrraedd os na bydd cofnod wedi ei wneud ar ôl chwe mis. Ble mae achos o adnabod angen hyfforddiant - mae'n bwysig cofnodi'r sgwrs ar MoDS, sydd yn yr Hunanwasanaeth ar y Fewnrwyd.





Strwythur Sgwrs



Pethau i'w hystyried

**FEL RHEOLWR LLINELL,
PEIDIWCH A THROI Y SGWRS
I SŌN AMDANOCH CHI EICH
HUN**

**MAE'N WELL GAN
RHAI POBL DRAFOD
BETH SYDD YN EU
POENI YN SYTH - AC
MAE'N WELL GAN
ERAILL DDWEUD AR
DDIWEDD Y SGWRS.**

**MAE GOFYN
CWESTIYNAU DILYNOL,
BYR YN Ffordd O GAEL
MWY O WYBODAETH AC
YN DANGOS EICH BOD
YN GWRANDO**


**MAE'N BWYSIG BOD LLE YN
Y SGWRS I GYDNABOD A
DATHLU LLWYDDIANT, BLE Y
BO MODD**

**BYDDWCH YN GAREDIG,
CEFNOGOL A GONEST.**

**CEISIWCH DDANGOS EICH
BOD YN COFIO PETHAU O
SGYRSIAU BLAENOROL.**



CWESTIYMAU GWERTHUSO PARHAUS






—Cwestiynau Cychwynnol—

Defnyddio'r cyfle yma, wrth gychwyn y sgwrs, i asesu sut mae rhywun cyn cychwyn ar y sgwrs.

Dylid ystyried natur y person (e.e. lle ar y cylch DiSC), i weld pa fath o gwestiwn sydd yn mynd i weithio wrth gael y gorau allan o'r sgwrs.



- Sut wyt ti? (hwyrach bod angen gofyn mwy nag unwaith)
- Beth fyddai llwyddiant ar ddiwedd y cyfarfod yma?
- Rho farc allan o 10 am sut mae pethau yn y gweithle.
- Beth yw gwerth mwyaf y cyfarfodydd 1 i 1?
- Oes yna rhywbeth sydd angen ei drafod yn y sgwrs heddiw?
- Beth sydd yn bwysig i chdi?
- Beth yw dy werthoedd yn y gwaith?
- Beth sydd yn dy wneud yn hapus ar y funud?
- Oes yna rhywbeth pwysig ydw i angen ei wybod fel Rheolwr Llinell i ti?
- Sut noson o gwsg gefaist ti neithiwr?
- Oes unrhyw beth yn dy boeni?





Cwestiynau Lles

- Wyt ti'n teimlo fod gen ti gefnogaeth yn dy waith? Pam?
- Sut allai dy reolwr dy gefnogi di yn well yn dy waith?
- Beth yw'r cynllun i daro balans iach rhwng bywyd a gwaith?
- Sut wyt ti'n blaenoriaethu a rheoli dy amser?
- Wyt ti'n gallu rhoi enghraifft o ddatrys anghytuno neu gynorthwyo cyd-weithiwr?
- Beth sydd gen ti ar dy blat ar y hyn o bryd?
- A wyt ti'n cael digon o gyswllt gyda dy reolwr a sut yw'r ffordd orau i ti o wneud hynny?
- Wyt ti'n hapus yn dy swydd? Pam?
- Beth sydd yn dy ysgogi di i wneud dy orau yn dy swydd?
- Beth fedra i ei wneud fel Rheolwr (Llinell) i roi lle i ti rannu beth sydd yn cael effaith negyddol ar dy les?
- Beth yw'r peth wyt ti yn ei fwynhau fwyaf am dy waith?
- Wyt ti'n teimlo effaith Ffordd Gwynedd? Beth yw'r gwahaniaeth?

Rhan 1





Cwestiynau Lles

Os oes pryder am les yn codi cyn neu yn ystod y sgwrs. dyma ychydig o gwestiynau sydd wedi eu llunio ar gyfer eich cefnogi i allu cynnal y math yna o sgwrs.

Rhan 2

- Sut wyt ti'n teimlo heddiw/wythnos yma/ar y foment?
- Sut wyt ti o ran lles?
- Pa farc allan o ddeg fyddet ti yn ei roi am dy les ar y funud?
- Wyt ti'n cysgu yn iawn?
- Sut wyt ti wedi bod yn teimlo'n ddiweddar?
- Oes yna unrhyw beth ydwi angen ei ddeall/wybod?
- Dwyt ti ddim yn ymddangos mor hapus yn y gwaith yn ddiweddar, ydi popeth yn iawn?
- Rwyf wedi sylwi dy fod yn cadw dy hun i dy hun yn ddiweddar, sut mae pethau?
- Ydi popeth yn iawn, hoffet ti gael sgwrs?
- Oes rhywbeth yn cael effaith negyddol ar dy les di yn y gwaith?
- Sut y medri di ac y medraf i wella lles yn y gwaith?
- Os yw dy lles neu iechyd meddwl yn dirywio, oes gen ti bobl y gelli droi atyn nhw?
- Pa arwyddion ydw i angen bod yn ymwybodol ohonyn nhw sydd yn dangos dy fod angen cefnogaeth?



Ar y dudalen 15 ac 16 o'r llyfryn hwn, mae gwybodaeth am ble i gael cefnogaeth os oes mater o bryder lles wedi codi yn ystod y sgwrs.

Mae'r wybodaeth yma ar gyfer Rheolwyr Llinell i gefnogi neu i aelod o Staff er mwyn dechrau sgwrs gofyn am gefnogaeth.



Cwestiynau Gwaith

Rhan 1



- Sut mae pethau yn dy waith?
- Wyt ti wedi cwblhau'r teitlau hyfforddi mandadol?
- Os ddim, beth sydd angen digwydd i gefnogi hynny?
- Beth yw'r ffordd orau i dderbyn adborth am dy waith?
- Pa heriau sydd yn tueddu i ymddangos yn gyson yn dy waith? Wyt ti'n gallu eu datrys dy hun? neu gyda cymorth? (Pwy?)
- Dangos dy Raglen Waith ac eglura sut wyt ti'n gweithio drwyddi.
- Pa farc allan o ddeg fasa ti'n ei roi am dy berfformiad yn dy waith?
- Oes gen ti enghraifft o waith/tasg wyt ti'n falch ohono?
- Pa sgiliau wyt ti wedi eu datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf?
- Pa gyngor fyddet ti yn ei roi i dy reolwr/rheolwr llinell?
- A wyt ti'n cael adborth teg am dy waith?





Cwestiynau Gwaith

Rhan 2

- Beth yw cryfderau dy gyd-weithwyr?
- Sut mae pethau'n mynd efo'r tîm/gwasanaeth/adran?
- Sut wyt ti'n cyfrannu i lwyddiant y tîm/gwasanaeth?
- Sut wyt ti'n ymateb o dderbyn adborth adeiladol am dy waith?
- Sut a lle wyt ti'n cael y mwyaf o werth mewn sgysiau gyda'r gwasanaeth cyfan?
- Lle wyt ti'n teimlo wyt ti wedi llwyddo fwyaf yn dy waith dros y flwyddyn diwethaf?
- Wyt ti'n teimlo'n saff yn dy waith?
- A yw rheolau diogelwch yn cael eu dilyn yn gywir?
- Beth wyt ti'n falch ohono am dy waith?
- Sut wyt ti'n ymateb o gael adborth adeiladol am dy waith?
- Beth yw dy amcanion am y flwyddyn nesaf?
- Pa gefnogaeth wyt ti ei angen i gyrraedd dy amcanion gwaith?
- Sut mae pwysau gwaith?






Cwestiynau Datblygiad

- Pa amcanion fyddet ti yn hoffi eu cyrraedd yn dy swydd?
- Pa gefnogaeth wyt ti ei angen i gyrraedd dy amcanion?
- A wnes ti gyrraedd dy amcanion ar gyfer dy swydd? Sut a Pam?
- Ym mha faes y fyddet ti'n hoffi cael hyfforddiant neu ddatblygiad?
- Oes yna gyfrifoldebau eraill y byddet ti'n hoffi eu cymryd ymlaen?
- Wyt ti'n gwybod sut i gael mynediad at y rhestr o hyfforddiant sydd ar gael o fewn y Cyngor?






Cwestiynau Cloi

- A oes unrhyw fater arall?
- Oedd y sgwrs yna yn lwyddiant?
- Oes yna unrhyw beth dylid ei drafod y tro nesaf?
- Pryd fyddai'n gyfleus i gael sgwrs tro nesaf?
- Yw sgwrs wyneb yn wyneb yn well na sgwrs Teams?
- Wyt ti'n hapus / bodlon?
- Wyt ti'n teimlo'n well am bethau?



CEFNOGAETH BELLACH





Cefnogaeth Lles

Os yw aelod o Staff yn methu dygymod gyda phwysau gwaith, yna dylid:

- Cael sgwrs agored ynglŷn â'i llesiant, peidio barnu, dangos empathi (fel arfer yr unig beth sydd angen i chi wneud ydi bod yn glust i wrando).
- Trafod a oes unrhyw beth penodol sydd yn creu'r straen gwaith, megis, llwyth gwaith, diffyg staffio, toriadau, annifyrrwch rhwng aelodau'r tîm, sefyllfa adref neu rywbeth personol sydd yn cyfrannu at beidio gallu dygymod a phwysau yn y gwaith ayyb.
- Cael sgwrs ynglŷn â blaenoriaethu gwaith ac adolygu llwyth gwaith, a oes yna unrhyw peth penodol gall cael ei dynnu i ffwrdd am gyfnod neu ddileu/oedi. Oes yna unrhyw beth all gynorthwyo'r unigolyn yn bellach e.e. gweithio o'r cartref unwaith yr wythnos, newid oriau gwaith ayyb.
- Cynnal Asesiad Straen Gwaith Straen/ Stress ar y cyd gyda'r unigolyn gan ddefnyddio'r ddogfen 'Cynllun Gweithredu Lles'.
- Oes angen ystyried cynnal asesiad risg i'r tîm, os oes achos o fethu cydweithio, defnyddiwch y lincs yma:

Cymraeg - [guide-to-waps-employees-welsh_interactive-op.pdf](#)

Saesneg - <https://www.mind.org.uk/media/lbahso3x/mind-wellness-action-plan-workplace.pdf>

- Cynnig cyfeirio'r unigolyn at y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol trwy ddefnyddio'r linc ar y system salwch. Rhaid i'r unigolyn gytuno i gael ei gyfeirio.
- Parhau i gefnogi a chynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd.


Cefnogaeth Lles

Os bydd aelod o Staff yn dymuno cefnogaeth gan wasanaeth cwnsela MEDRA yna dylid cyfeirio'r Aelod o Staff drwy gysylltu efo Uned Iechyd Galwedigaethol a chael sgwrs hollol gyfrinachol gyda'r nyrsys profiadol y Cyngor.

NEU

Os yw aelod o Staff yn methu bod wrth eu gwaith yn dilyn anaf corfforol, yna cysylltwch â mae angen cwblhau HS11 os yn ddigwyddiad yn waith, nodi'r absenoldeb ar y system salwch ac yna cyfeirio'r unigolyn ar y 4 diwrnod o salwch at:

Iechydgawedigaethol@gwynedd.llyw.cymru
01286 679329.



Os yw aelod o Staff yn gofalu am aelod o'r teulu, mae cefnogaeth bellach ar gael drwy'r Polisi Cefnogi Gofalwyr yn y gwaith.

<https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/MewnrwydAD/SitePages/Cefnogi-Gofalwyr.aspx>

Os yn ofalwyr di-ddal? Gellir cael mwy o wybodaeth:

<https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/MewnrwydIechydDiogelwchLlesiant/SitePages/Ydych-chi%27n-Ofalwr-di-dal--Are-you-an-unpaid-carer-.aspx>

Os oes angen adrodd ar ddigwyddiad/damwain neu gefnogaeth gydag Asesiad Risg, yna bydd angen i chi ofyn i'r unigolyn lenwi rhan A o'r ffurflen HS11 ac yna chi fel Rheolwr i lenwi rhan B o'r ffurflen. Dylid gyrru'r ffurflen wedi ei chwblhau i iechyddiogiogelwch@gwynedd.llyw.cymru.

Am fwy o fanylion - ADRODD AC YMCHWILIO DIGWYDDIADAU

<<https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/MewnrwydIechydDiogelwchLlesiant/SitePages/Damweiniau-a-Digwyddiadau.aspx>>

[cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/iad/Mewnrwyd/Forms/AllItems.aspx?](https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/iad/Mewnrwyd/Forms/AllItems.aspx?id=%2Fsites%2Fiad%2FMewnrwyd%2FDamweiniau%2FDigwyddiadau%2FTaflen)

[id=%2Fsites%2Fiad%2FMewnrwyd%2FDamweiniau a Digwyddiadau](https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/iad/Mewnrwyd/Forms/AllItems.aspx?id=%2Fsites%2Fiad%2FMewnrwyd%2FDamweiniau%2FDigwyddiadau%2FTaflen)

Wydodaeth Sut i Adrodd Damweiniau

2024%2Epdf&parent=%2Fsites%2Fiad%2FMewnrwyd%2FDamweiniau a Digwyddiadau

Cofiwch fod tudalen yn cynnwys yr holl wybodaeth ar gael ar y Fewnrwyd - Hwb Llesiant, Diogelwch ac Iechyd.

Mewnrwyd Iechyd, Diogelwch a Llesiant - Hafan



Cefnogaeth Iaith

Cymraeg

Cwestiynau Iaith

- Wyt ti wedi cwblhau'r holiadur hunan asesu iaith Gymraeg ar Hunanwasanaeth Staff ac wyt ti'n gwybod be ydi dy lefel iaith di?
- Wyt ti wedi cwblhau pob hyfforddiant mandadol (gan gynnwys hyfforddiant gwella sgiliau Cymraeg os oedd hynny yn un o'r amodau penodi)? Wyt ti'n gwybod bod cefnogaeth ar gael os wyt ti isio datblygu dy sgiliau Cymraeg?
- Oes unrhyw beth fedra i ei wneud i dy gefnogi efo'r Gymraeg?
- Wyt ti angen mwy o gyfleoedd neu gefnogaeth i ddefnyddio dy Gymraeg yn y gwaith?
- Wyt ti angen cefnogaeth gyda'r Gymraeg er mwyn gallu mynychu unrhyw hyfforddiant mewnol yn y Cyngor?
- Wyt ti'n hyderus i wneud dy waith/pob elfen o dy swydd i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Ydi'r unigolyn wedi cwblhau pob hyfforddiant mandadol (gan gynnwys hyfforddiant gwella sgiliau Cymraeg os oedd hynny yn un o'r amodau penodi)?

Os yw aelod o staff angen mwy o wybodaeth am hyfforddiant iaith Gymraeg, cysylltwch â'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg – dysgucymraeg@gwynedd.llyw.cymru | Hwb Hyfforddiant Iaith

Os am wybodaeth pellach/hyfforddiant am bolisi y Gymraeg, Safonau'r Gymraeg neu faterion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg, cysylltwch â – iaith@gwynedd.llyw.cymru | Mewnwyd Iaith

Cefnogaeth Bellach

Cefnogaeth Hyfforddiant / Datblygiad

Os ydych yn adnabod anghenion cefnogi staff drwy hyfforddiant corfforaethol, mae lle i gofnodi hynny wrth logio'r sgwrs Gwerthuso Parhaus yn Modiwl Datblygu Staff.

Fel arall, edrychwch ar y deilsen Dysgu a Datblygu ar yr Hunanwasanaeth.

<https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/sites/DysguDatblygu>

NEU Gallwch e-bostio - dysgu@gwynedd.llyw.cymru